❖ Dathlu'r Ŵyl

Arglwydd, erfyniwn am dy gymorth
i ddathlu'r ŵyl mewn modd gweddus a theilwng:
nid yn drist ond yn llawen,
nid mewn maswedd ond mewn moliant,
nid yn grintachlyd ond yn garedig,
nid yn rhagfarnllyd ond mewn rhadlonrwydd.

Arglwydd, yn enw'r Baban Iesu,
gweddïwn am fyd gwell i fabanod a phlant;
gweddïwn ar ran cartrefi Cymru a chartrefi'r byd:
boed i neges yr ŵyl dyneru calonnau,
ennyn cariad ar aelwydydd,
a gwneud cartrefi yn gysegrleoedd,
am fod dy wenau di arnynt.

Cofiwn am y rhai sydd heb gysgod a chysur aelwyd,
a'r miloedd sydd heb wlad i fyw ynddi:
y ffoaduriaid sy'n heidio mewn gwersylloedd,
yn wrthodedig, yn cael eu newynu neu'u lladd;
boed i neges yr ŵyl beri i lywodraeth bwyllo
a thosturio wrth drueiniaid ein byd.

Boed i ninnau, nefol Dad,
feithrin cariad yn lle cas,
maddeuant yn lle dialedd,
a thriged dy dangnefedd yn ein calonnau. Amen.

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com